

# Bwriwch olwg fanylach ar... GEN

A hwythau'n hawdd eu diystyru, mae cennau'n cynnwys dau beth byw bach iawn: ffwng ac alga neu syanobacteria. Maen nhw'n helpu ei gilydd - mae'r alga neu'r syanobacteria yn cynhyrchu bwyd, ac mae'r ffwng yn hel dŵr ac yn gwarchod yr alga. Yr enw ar y math hwn o berthynas yw symbiosis.

Edrychwch ar greigiau a choed yn eich ardal chi - gall cennau fod yn ddeiliog neu'n grofenlog ac mae gan rai mathau ganghennau bychan. Gallant orosi yn y lleoedd gerwinaf yn y byd - yr Arctig, yn yr anialwch ac ar ben mynyddoedd - lle na all y rhan fwyaf o blanhigion fyw!

- Cofnodwyd mwy na 1800 rhywogaeth o gennau yng ngwledydd Prydain - o gymharu â 598 rhywogaeth o adar magu!
- Mae rhai cennau Arctig dros 4000 mlwydd oed – rhai o'r pethau byw hynaf ar y Ddaear.
- Mae cennau'n sensitif iawn i lygredd awyr ac fe'u defnyddir gan wyddonwyr i fonitro ansawdd awyr.
- Defnyddir cennau sydd â changhennau mewn rheilffyrdd model ar gyfer gwneud coed a llwyni bach iawn!
- Defnyddiwyd cennau i wneud lliwureau a phersawrau ac mewn meddyginiaethau traddodiadol – ac mewn uwd hyd yn oed!

**Ewch i Gymdeithas Gen Prydain i weld harddwch cennau a gwefan y Cyngor i gael gwybod mwy am fywyd gwylt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin.**



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin  
Carmarthenshire Biodiversity Partnership



 Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales

 Cyngor  
Sir Gâr  
Carmarthenshire  
County Council